

w

Prifysgol Wreccsam

Datganiadau Ariannol

2024/2025

Datganiad Trylowwyder

Adolygu'r Flwyddyn Ddiwethaf

Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

Gweledigaeth a Strategaeth hyd at 2030

Yn 2024–25, dechreuodd Prifysgol Wreccsam ar bennod newydd gyda lansiad swyddogol ein Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2030, gan nodi esblygiad blaengar o lwyddiannau ein strategaeth 2025. Ein cenhadaeth, fel y'i diffinnir yn ein strategaeth 2025 oedd "i ysbrydoli a galluogi drwy addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu; cydweithio gyda'n myfyrwyr, staff a'n partneriaid"

Mae ein strategaeth 2030 yn adeiladu ar y gwaith hwn drwy fynd i'r afael ag uchelgais o'r newydd i fod yn brifysgol ddinesig fodern flaenllaw, sy'n ymgysylltu'n rhanbarthol ac yn fyd-eang, gan ddarparu sgiliau ac ymchwil dylanwadol sy'n hybu twf economaidd ac arloesedd er lles y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol - wedi'i ategu gan ein llinynnau, themâu a gwerthoedd craidd.

Gwerthoedd Craidd a Themâu Strategol

Rhagoriaeth	Cyfleoedd a Phrofiadau Myfyrwyr
Cynhwysiant	Pobl, Lleuedd a Phartneriaethau
Cydweithrediad	Ymchwil a Menter
Trawsnewid	
Cynaliadwyedd	

[FIDEO GWERTHOEDD](#) gwyliwch am ragor o wybodaeth

Llinynnau Craidd

Gweithredu Mewn Ffordd Gynaliadwy
Cynyddu Cyfleoedd
Hyrwyddo Diwylliant, Treftadaeth Cymru a'r Iaith Gymraeg

Cynaliadwyedd

Cynaliadwyedd Ariannol yn Parhau

Mae'r Brifysgol wedi cynnal sefyllfa ariannol gadarnhaol drwy gynhyrchu EBITDAau (enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad) yn llwyddiannus dros y 4 blynedd ddiwethaf. Mae'r strategaeth ariannol ar gyfer Prifysgol Wreccsam yn hyrwyddo amrywio ffynonellau incwm o ystod o gynigion addysgiadol - drwy hyfforddiant ar-lein, gartref a rhyngwladol, ynghyd â chydweithrediadau gartref ac yn y DU. Ar hyn o bryd nid oes gan y Brifysgol unrhyw fenthyciadau.

Reconciliation from Total Comprehensive Income for the Year to Net Operating Surplus	Year Ending 31 st July 2025 (£'000)
Total Comprehensive Income for the Year	(515)
Deduct actuarial gain in respect of pension schemes	(177)
Equals Net Surplus/(Deficit)	(692)
Add back loss on disposal of fixed assets	1,074
Add back taxation	44
Equals Net Surplus including pensions adjustments	426
Add back LGPS (pension) current service cost adjustment*	434
Deduct gain on LGPS (pension) interest adjustment*	(257)
Equals Net Operating Surplus	603

Llywodraethiant Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chorfforaethol

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddangos yr arfer orau mewn rhagoriaeth amgylcheddol a chynaliadwy sydd wedi'i gyflwyno drwy ei Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol 2021-2025. Mae'r Strategaeth hon wedi helpu i atgyfnerthu a gyrru amrywiaeth o weithgareddau a ymyriadau yn eu blaen drwy greu diwylliant ac ethos cryfach drwy ymgysylltiad staff, myfyrwyr a'r gymuned. Cyflawnwyd nifer o ganlyniadau allweddol, er enghraifft:

- Lleihaodd allyriadau carbon o ynni a ddefnyddiwyd yn y Brifysgol o 10% flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Cafodd 54% o wastraff ei ailgylchu'n llwyddiannus, gan fynd y tu hwnt i'r targed o 50%
- Ers mis Medi 2022 mae 100% o wastraff wedi cael ei ddargyfeirio o dirlenwi
- Buddsoddwyd £110k mewn cyfres o adnewyddu boeleri ynghyd â rhaglen waith i ôl-osod goleuadau LED a synwryddion symudiad PIR




Gwybodaeth i ddangos sut yr ydym yn cael ein hariannu a lle rydym yn buddsoddi ein hincwm

O ble daw ein harian

Cyfanswm incwm grŵp a ostyngwyd yn 2024/25 i £60.1m (2023/24 £62.2m). Roedd hwn yn bennaf mewn incwm o ffioedd dysgu - cafodd y gostyngiad sylweddol mewn ffioedd dysgu rhyngwladol eu gwrthbwysu gan gynnydd mewn ariannu HEIW gyda'r 3edd garfan o fyfyrwyr rhag-gofrestredig sy'n astudio nyrsio a phynciau iechyd perthynol.

Cafodd grantiau cyrff ariannu drwy Medr eu lleihau oherwydd grantiau untro at bwrpasau penodol. Mae incwm ymchwil yn parhau i fod yn gyfran isel o'r incwm cyffredinol ond mae wedi cynyddu i £697k yn 2024/25 (2023/24 £385k).




Lle mae ein harian yn cael ei wario

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 24/25, manylir ar sut y gwariodd y Brifysgol £60.0m o'i hincwm isod:

Mae'r gwariant wedi gostwng £1.3m ers 2023/24. Mae'r mwyafrif (40%) yn cael ei wario ar gostau dysgu uniongyrchol (40.3% yn 2023/24), gyda'r gyfran fwyaf nesaf yn cael ei wario ar Weinyddu a Gwasanaethau Canolog 19.9% (17.3% yn 2023/24).

Undeb Myfyrwyr Wrecsam: Cyfrannodd y Brifysgol £515,000 fel grant bloc yn ystod y flwyddyn er mwyn helpu i gefnogi rhediad Undeb y Myfyrwyr.

Costau ychwanegol untro ar gyfer 2024/25: Nod y Brifysgol yw dim ond gwario ar lefelau sydd o fewn i'r incwm y mae wedi'i gynhyrchu yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw eitemau untro anarferol i'w hadrodd ac eithrio'r golled a grëwyd wrth waredu'r Bloc Peirianeg.




Buddsoddiad yn ein campysau ac ystadau

Yn ystod y flwyddyn ariannol 24/25, buddsoddodd y Brifysgol £10.8m mewn Seilwaith, Cyfleusterau Myfyrwyr, y Ganolfan Darganfod Gwyddoniaeth a'i Datblygiadau Campws 25.

Cynyddodd gwariant cyfalaf o £2.7m ers y flwyddyn flaenorol - mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gwaith EEOC (cwblhau CanfodAu ym Mhlas Coch) ac adeiladu'r adeilad newydd pwrpasol sy'n cynnwys cyfleusterau o'r radd flaenaf yn atodol i'r Ganolfan Efelychu Gofal lechyd a gwelliannau i fannau addysgu a dysgu sydd i'w cwblhau erbyn Gwanwyn/Haf 2026.

Mae'r Brifysgol wedi parhau gyda'i chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer Campws 2025 ac yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd grant cyfalaf Medr er mwyn ariannu gwelliannau parhaus i'r Ardal Gwyddoniaeth a Pheirianeg. Llwyddodd y Brifysgol i dderbyn cymeradwyaeth Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer grant o £1.5m mewn perthynas â cham nesaf y cynlluniau peirianeg "Cymdeithas 5.0". Mae'r offer i'w gaffael erbyn diwedd mis Mawrth 2026.



Buddsoddiad mewn Seilwaith TG a Digidol

Un o'r cyflawniadau allweddol ar gyfer effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yw sicrhau bod ein buddsoddiad mewn seilwaith TG yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. Parhaodd y Brifysgol i weithredu prosiectau yn ymwneud â TG, yn cynnwys uwchraddio'r Gweinyddwr SAN a gwelliannau Wi-Fi. Fel rhan o'r Rhaglen Gwariant Cyfalaf Bach, gwariwyd £0.235m ar amrywiol brosiectau gan gynnwys gwelliannau i Labordai Addysgu Cyffredinol a Gorsafoedd Gwaith y Llyfrgell, gan gynnwys ailosod nifer o gyfrifiaduron. Mae system fenthyca gliniaduron hunanwasanaeth wedi'i rhoi ar waith i fyfyrwyr ei defnyddio ym Mhlas Coch ac mae'r gofod addysgu AV wedi'i uwchraddio yn ein Campws yn Llaneurgain, i gyd er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

Yn ystod 25/26 bydd hwb ychwanegol mewn prosiectau Trawsnewid Digidol gan gynnwys y Warws Data a'r Modiwl Cyfrifeg Myfyrwyr ymhlith eraill.

Academic & Digital Skills



IT / Tech Zone



Buddsoddiad mewn Ymchwil

Mae'r QER llwyddiannus wedi atgyfnerthu cynnydd y Brifysgol tuag at Bwerau Dyfarnu Graddau (RDAPau). Disgwylir canlyniadau terfynol ein cais ar ddiwedd 2026.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyhoeddwyd bod y Brifysgol yn bartner mewn Canolfan Cyfiawnder Pobl led-led y DU, sydd â'r nod o ddwyn ymchwil y gyfraith a chyfiawnder cymdeithasol ynghyd er mwyn cefnogi cymdeithasau cryfach a mwy cynhwysol. Aethom ati hefyd i atgyfnerthu ein partneriaeth gyda Chymdeithas Clwb Pêl-droed Wreccsam, gan ddod yn bartner ymchwil arbennig Cymdeithas Clwb Pêl-droed Wreccsam er mwyn ymgymryd ag ymchwil i sut mae pêl-droed yn cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at iechyd a lles plant a phobl ifanc, yn ogystal â sut y gellir ei ddefnyddio i yrru newid cymdeithasol o fewn cymunedau. Mae ein Canolfan Menter, Peirianeg ac Opteg- CanfodAu wedi atgyfnerthu ymhellach ein gwaith ymchwil ac arloesi ar weithgynhyrchu deunyddiau ysgafn, ynni adnewyddadwy ac ymchwil diwydiannol gan alinio gyda'n heconomi leol a rhanbarthol.

YMCHWILRESEARCH

Mae'r Brifysgol yn parhau i arddangos ein gwaith yn fewnol ac yn allanol drwy fynychu Darlithoedd Cyhoeddus ac rydym yn trefnu bod gennym bresenoldeb yn y sesiynau galw heibio Ymchwil misol yn y Brifysgol. Rydym yn parhau i ddatblygu cyfathrebu ein gwaith yn ddigidol drwy dudalennau cyfryngau cymdeithasol, ac mewn cyfres o bodlediadau er mwyn rhannu ein gwaith cydweithredol ac arloesol ar draws y DU ac yn ehangach.



Buddsoddiad yn y Gymuned - Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig

Mae ein gwaith Cenhadaeth Ddinesig wedi tyfu dros y 12 mis diwethaf gyda ffocws ar gyflawni Gweledigaeth a Strategaeth 2030 Prifysgol Wrecsam er mwyn dod yn brifysgol ddinesig fodern, flaengar. Mae ein Cenhadaeth Ddinesig gydweithredol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, wedi'i datblygu ochr yn ochr ac mewn cydweithrediad gyda phartneriaid, unigolion a chymunedau ar draws y rhanbarth. Mae ein Cenhadaeth Ddinesig wedi'i gwreiddio mewn data, mewnwelediad, ymchwil ac ymgysylltu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'r pwys mwyaf yn ein cymdeithas. Yn hanfodol, mae ein hagwedd yn canolbwyntio ar fod yn hyblyg ac yn barod i newid, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn y ffordd orau bosib i'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'n partneriaid, megis yr argyfwng costau byw, a mynd i'r afael â thlodi plant, a'r argyfwng hinsawdd, er mwyn darparu newid pellgyrhaeddol sy'n cael effaith sydd wedi'i sylfaenu ar le ochr yn ochr â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae enghreifftiau rydym wedi bod yn gysylltiedig â hwy, wedi eu harwain a'u galluogi yn cynnwys:

- * Adeiladu ar Brifysgol y Plant Gogledd Cymru, a chyda 4 seremoni raddio ar draws y rhanbarth, rydym wedi peilota TCM (Gwneuthurwyr Newid Yfory - Tomorrow's Changemakers) - agwedd arloesol tuag at ddysgu sy'n seiliedig ar brosiect gyda disgyblion Blwyddyn 8 mewn 2 ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg.

- * Cafodd pobl ifanc ar draws ein Cymunedau yng Ngogledd Cymru eu gwahodd i'n digwyddiad Sgwrs 'Bob Talks' ar y thema Perthyn. Mae hyn yn ddiwrnod ffilmio Arddull Ted-X lle bu i wneuthurwyr newid glywed naratifau cyhoeddus pobl ifanc.

- * Rydym yn parhau i ddatblygu Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru, sef partneriaeth o bobl a sefydliadau sy'n datblygu ac yn darparu prosiectau arloesol ar draws y rhanbarth. Mae Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru wedi ei gynnwys mewn astudiaeth achos Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd byd-eang, ac wedi bod yn gatalydd ar gyfer nifer o brosiectau arloesol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.



W

Ein Myfyrwyr

Mae Prifysgol Wreccsam yn hyrwyddo ac yn galluogi cynhwysiant cymdeithasol a dysgu gydol oes.

Rydym yn falch o'n hymrwymiad i amrywiaeth a'n cefnogaeth iddo ac rydym yn croesawu myfyrwyr ar draws y DU ac ar draws y byd i ddysgu gyda ni mewn amgylchedd sy'n cael ei gydnabod yn eang am fod yn gyfeillgar ac yn ymrwymedig i ansawdd.

Yn 2024-25 llwyddom i gyflawni'r gydnabyddiaeth ganlynol:

- * Ar y brig yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol, a thrydydd yn y DU ar gyfer Bodlonrwydd Myfyrwyr a (Complete University Guide, 2026)
- * Trydydd yng Nghymru ar gyfer Asesu ac Adborth (Data Arolwg Myfyriwr Cenedlaethol, 2025)
- * Ar y brig yng Nghymru a Lloegr am Gynhwysiant Cymdeithasol (Times and Sunday Times Good University Guide)

Graddio

Dathlodd dosbarth 2025 Prifysgol Wreccsam eu llwyddiannau academiaidd yn ystod seremonïau graddio'r hydref y Brifysgol a welodd fwy na 1,300 o fyfyrwyr yn camu'n falch ar lwyfan Neuadd William Aston i gael eu cyflwyno â'u gwobrau. Trwy gydol yr wythnos, rhannodd graddedigion eu llwyddiannau personol a'u cyflawniadau mwyaf, wrth astudio yn Wreccsam, gan gynnwys Connor Townley, graddedig Celf Gymhwysol, a gafodd y fraint o gyflwyno ei waith i Ganghellor y Brifysgol, Colin Jackson CBE cyn ei seremoni.

1st

in Wales and joint 3rd in the UK for
Student Satisfaction (Complete
University Guide 2026)



W

Gwasanaethau Cefnogi Effeithiol

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddenu, datblygu, ymgysylltu a chadw'r staff gorau. Trwy weithredu ein Strategaeth Bobl, rydym yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd perthnasol i staff i ddatblygu eu sgiliau personol a phroffesiynol yn barhaus, er mwyn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at weledigaeth ac amcanion strategol y Brifysgol. Mae staff academiaidd yn cyfrannu at addysgu a gweithgarwch ymchwil/ysgolheigaidd er mwyn datblygu eu hymarfer proffesiynol. Mae staff academiaidd hefyd yn cydweithredu gydag academyddion mewn prifysgolion eraill o fewn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae Staff yn galluogi gwireddu ein Gweledigaeth a Strategaeth, ac unwaith eto gwnaethant gyfraniadau anhygoel eleni. Mae'r brifysgol yn ymgysylltu gyda'i staff drwy amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys sesiynau cwestiwn ac ateb a fforymau rheolaidd gyda'r Tîm Gweithredol, cyrff sy'n cynrychioli staff, cynadleddau a gweithdai. Cynigir amrywiaeth o gyfleoedd datblygu staff bob blwyddyn, ar lefel y brifysgol gyfan neu adran leol yn ogystal ag yn allanol.

Rydym yn parhau i wneud camau sylweddol yn ein hymgysylltu gydag iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru. Mae nifer y staff sydd wedi cofrestru ar fodiwlau Cymraeg yn y Gweithle wedi cynyddu, ac mae cyfranogiad rhagorol mewn sesiynau Coffi a Chlone ar draws ein holl gampysau.



Rydym yn gynhwysol

Rydym yn hyblyg

Rydym yn ymrwymedig